Rhif: WG43239

# Llywodraeth Cymru
# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Camymddwyn honedig gan uwch swyddogion awdurdodau lleol

Barn ar newidiadau arfaethedig yn deillio o 'Adolygiad Oldham'

Ebrill 2022

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Crown Copyright

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr argymhellion, gan gynnwys newidiadau posibl i Reoliadau Llywodraeth Leol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006, yn deillio o 'Adolygiad Oldham' ar gamymddwyn honedig gan uwch swyddogion awdurdodau lleol. |
| **Camau gweithredu gofynnol** | Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig. |
| **Gwybodaeth bellach** | **Print bras, Braille ac iaith arall** |
| **Dogfennau cysylltiedig** | **Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras a Braille ar gael os gwneir cais.** |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r:<br>Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol<br>e-bost:<br>LGD.DemocracyDiversityRemuneration@gov.cymru |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru. |
| **Hefyd ar gael yn Saesneg yn:** | Alleged misconduct of local authority senior managers \| GOV.WALES |

## Cyflwyniad

Ym mis Hydref 2019, comisiynodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol adolygiad o'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chamymddwyn honedig gan uwch swyddogion mewn llywodraeth leol yng Nghymru.  Nod yr adolygiad oedd ystyried a yw'r trefniadau presennol yng Nghymru yn dal yn addas i'r diben.

Ar ôl derbyn yr adroddiad terfynol, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar argymhellion gan gynnwys newidiadau posibl i Reoliadau Llywodraeth Leol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006.

## Ymgynghoriad

Gwahoddwyd safbwyntiau fel rhan o ymgynghoriad deuddeg wythnos, a ddechreuodd ar 18 Tachwedd 2020 ac a ddaeth i ben ar 10 Chwefror 2021. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd modd i ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar ffurf ysgrifenedig, drwy e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Cafwyd cyfanswm o 26 o ymatebion. Saith ymateb ysgrifenedig neu drwy e-bost ac 19 ymateb drwy'r holiadur ar-lein. Mae'r math o ymatebydd wedi'i rannu fel a ganlyn:

| **Math o Ymatebydd** | |
|---|---|
| Aelod o'r cyhoedd | 18 |
| Aelod Etholedig | 1 |
| Prif Gyngor | 1 |
| Undeb Llafur | 1 |
| Corff cynrychioliadol, Corff Proffesiynol neu Gymdeithas | 1 |
| Arall | 4 |

Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi ei darparu ar dudalen 17. Nodwch, os gwelwch yn dda, bod nifer o'r ymatebwyr yn dymuno aros yn ddienw, a bod hyn wedi cael ei barchu.

## Crynodeb o'r Ymatebion

Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn grynodeb o'r 26 o ymatebion a dderbyniwyd. Nid yw'r adroddiad yn ceisio cofnodi pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr, yn hytrach mae'n tynnu sylw at y negeseuon allweddol.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn 15 cwestiwn fel y nodir isod.

**Cwestiwn 1: Mae'n amlwg y dylid defnyddio "camau disgyblu" ar gyfer materion sy'n ymwneud â chamymddwyn yn unig. Dylai'r rheoliadau ymwneud ag ymddygiad uwch swyddogion yn unig. Dylid delio â materion sy'n ymwneud â pherfformiad yn lleol fel y cytunir gan bolisïau sy'n ymwneud â pherfformiad.**

**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?**

Cafwyd 26 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd 13 ohonynt yn cytuno, roedd wyth yn anghytuno, ac roedd pump yn cynnig ymatebion 'eraill' – a oedd yn ehangach na'r cwestiwn neu nid oeddent yn ymateb yn benodol i'r cwestiwn a ofynnwyd ond yn darparu sylwadau defnyddiol.

<u>Negeseuon allweddol o'r ymatebion</u>

Mae'n bwysig peidio â drysu rhwng materion camymddwyn a materion perfformiad, a dylai'r rheoliadau a/neu'r canllawiau ategol ddarparu digon o eglurder er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson. Byddai eglurhad pellach, ac enghreifftiau o beth yw 'camymddwyn' a beth yw 'perfformiad' yn ddefnyddiol gan y gallai'r ddau orgyffwrdd.

Rhaid i brosesau awdurdodau lleol sicrhau y gwneir pob atgyfeiriad priodol ar gyfer camau disgyblu, ond gwarchod rhag cyhuddiadau maleisus, a sicrhau bod y rhai sydd angen ystyriaeth ddifrifol yn cael eu trin yn briodol. Dywedodd un ymatebydd 'y dylai'r gweithdrefnau gael eu defnyddio dim ond lle mae mater disgyblu gwirioneddol i fynd i'r afael ag ef, ac ni ddylid eu camddefnyddio i ddelio â sefyllfaoedd lle'r oedd rheolaeth wleidyddol wedi newid mewn awdurdod lleol a lle cafwyd gwared ar uwch swyddogion am nad oeddent yn gweddu i gyfeiriad polisi'r weinyddiaeth newydd'.

Roedd barn wahanol ynghylch a ddylai'r rheoliadau fod yn ymwneud ag ymddygiad uwch swyddogion yn unig, gyda rhai yn awgrymu y dylent hefyd fod yn berthnasol i benaethiaid adrannau eraill, a hefyd bod angen trin yr holl staff o fewn yr awdurdod lleol yn gyfartal.

Roedd barn y dylid delio â 'perfformiad' a 'mân faterion' yn lleol, er bod rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai fod angen rhywfaint o annibyniaeth ar gyfer yr ymchwiliadau hyn hefyd, gan ei bod yn ymddangos bod diffyg ymddiriedaeth mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol y byddai ymchwiliad mewnol yn ddigon diduedd.

**Cwestiwn 2: Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai llywodraeth leol ddatblygu canllawiau arfer da ar reoli perfformiad ar gyfer uwch swyddogion. Byddai hyn yn helpu i leihau'r dryswch ynghylch ar gyfer beth y gellir defnyddio camau disgyblu, gan ddefnyddio'r rheoliadau hyn.**

**Byddai Gweinidogion Cymru yn croesawu eich barn ynghylch a fyddai rhagor o eglurder yn ddefnyddiol yn y rheoliadau a'r dogfennau cefnogi ynghylch ym mha amgylchiadau y maent yn berthnasol iddynt, ac os felly, unrhyw awgrymiadau ynghylch y geiriad.**

Cafwyd 23 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd 17 ohonynt yn cytuno y byddai mwy o eglurder yn y rheoliadau a'r dogfennau ategol yn fuddiol, ac roedd chwech yn cynnig ymatebion 'eraill' a oedd yn ehangach na'r cwestiwn neu nid oeddent yn ymateb yn benodol i'r cwestiwn a ofynnwyd ond yn darparu sylwadau defnyddiol.

<u>Negeseuon allweddol o'r ymatebion</u>

Roedd cytundeb cyffredinol y byddai'n ddefnyddiol i lywodraeth leol ddatblygu canllawiau arfer da ar reoli perfformiad ar gyfer uwch swyddogion, ond gyda'r cafeat bod rhaid diffinio safonau gweithredu ar draws awdurdodau lleol a pheidio â chaniatáu amrywiadau lleol. Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb, byddai'n ddefnyddiol nodi yn y rheoliadau a'r dogfennau ategol o dan ba amgylchiadau y byddai camau disgyblu'n berthnasol. Dylai hyn gynnwys diffiniad o ystyr camau disgyblu, a'r hyn yr oedd mater dibwys yn ei olygu. Pwynt arall a godwyd oedd a ddylai'r term camymddwyn difrifol ddisodli camymddwyn. Roedd y defnydd o iaith syml hefyd yn cael ei annog.

Awgrymodd un ymateb y dylai camymddwyn fod yn ymwneud â gweithredoedd bwriadol nad oedd modd eu hunioni pe byddent yn cael eu profi, yn hytrach na pherfformiad gwael uwch swyddog oherwydd diffyg profiad, ac felly'n gallu derbyn hyfforddiant ychwanegol neu ail-hyfforddiant i oresgyn y broblem.

Mynegwyd rhai pryderon ynghylch didueddrwydd awdurdodau lleol wrth ymdrin â materion rheoli perfformiad. Dywedodd un ymatebydd y gallai prosesau rheoli perfformiad awdurdodau lleol ymylu ar fod yn 'rhwydwaith hen fechgyn' lle mae uwch reolwyr yn gofalu am ei gilydd. Amlygodd un arall, lle bo cymunedau clos yn bodoli a chyswllt agos rhwng pobl yn y cymunedau hynny, y gall ei gwneud yn anodd delio â materion disgyblaeth

Awgrymwyd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru osod Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer mesur perfformiad awdurdodau lleol, a gellid cynnwys y rhain yn y Rheolau Sefydlog.

Dylai cyfeiriad at dryloywder a chwythu'r chwiban fod yn fwy amlwg yn y polisi a dylai'r canllawiau ategol, hyd y bo modd, adlewyrchu'r geiriad yn y polisïau sy'n ymwneud â holl staff y cyngor.

**Cwestiwn 3: Dylid dilyn y gosb a argymhellir gan PAD – dylid/na ddylid. Os ateboch chi na ddylid, pam hynny ac a ddylid cael hyblygrwydd lleol.**

Cafwyd 23 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd 20 ohonynt yn cytuno y dylid dilyn cosb PAD, (Person Annibynnol Dynodedig) roedd dau yn anghytuno, ac roedd un yn cynnig ymatebion 'eraill' a oedd yn ehangach na'r cwestiwn neu nid oeddent yn ymateb yn benodol i'r cwestiwn a ofynnwyd ond yn darparu sylwadau defnyddiol.

Negeseuon allweddol o'r ymatebion

Awgrymodd ymatebwyr ei bod yn afresymol i berson annibynnol gael ei benodi, cynnal ymchwiliad annibynnol ac yna i'r canlyniad gael ei anwybyddu. Un mater allweddol oedd yr angen am hyder yn y broses ac yng nghanlyniadau'r broses. Yn ogystal, byddai'r PAD wedi cael y fantais o glywed gan dystion a'r prif swyddog ac felly byddai'r cosbau a argymhellwyd ganddynt yn seiliedig ar dystiolaeth. Mynegwyd barn wahanol ynghylch a ddylid gwneud unrhyw ddarpariaeth i wyro oddi wrth y canllawiau mewn amgylchiadau eithriadol, neu a ddylid cael rhwymedigaeth gyfreithiol i fynd ar drywydd unrhyw gosb a roddir dan broses y PAD.

Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith bod defnyddio PAD wedi codi'r cwestiwn ynghylch pwrpas cynghorwyr yn y broses os nad oedd dewis arall heblaw derbyn yr argymhelliad, ac felly roedd angen ystyried yr elfen hon o'r weithdrefn ymhellach yn eu barn hwy.

I'r rhai a oedd yn anghytuno, nid oedd llawer o esboniad nac awgrymiadau eraill, ond teimlai un ymatebydd nad oedd y cosbau'n ddigon da.

**Cwestiwn 4: A ddylid penodi person nad yw'n gyfreithiol gymwys mewn rhai achosion – dylid/na ddylid.**

**Os 'dylid', a ddylai gael mynediad at gyngor cyfreithiol annibynnol?**

Cafwyd 25 ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 12 yn cytuno y gallai person heb gymwysterau cyfreithiol gyflawni rôl y PAD mewn rhai achosion, ac roedd 10 yn anghytuno â hyn. Roedd tri yn cynnig ymatebion 'arall', a oedd yn ehangach na'r cwestiwn neu nid oeddent yn ymateb yn benodol i'r cwestiwn a ofynnwyd ond yn rhoi barn ddefnyddiol.

Negeseuon allweddol o'r ymatebion

Roedd cefnogaeth gref i ymchwiliadau annibynnol ar gyfer achosion o gamymddwyn er bod rhywfaint o wahaniaeth barn o ran y PAD priodol, ac a ddylid penodi PAD heb gymwysterau cyfreithiol mewn rhai achosion. Lleisiwyd rhai pryderon am y rheswm dros ystyried penodi PAD heb gymwysterau cyfreithiol. Dywedodd un ymatebydd ei bod yn ymddangos bod y sail i'r awgrym hwn gan Adolygiad Oldham yn ymwneud â chostau yn unig. Nid oedd yr ymatebydd yn argyhoeddedig y byddai arbedion cost wrth benodi PAD heb gymwysterau cyfreithiol, yn enwedig lle'r oedd angen defnyddio cyngor cyfreithiol annibynnol hefyd. Dywedodd eraill na ddylai costau fod yn ffactor

dylanwadol wrth benodi PAD gan y dylai hyn fod yn seiliedig ar ffeithiau a chymhlethdod yr honiadau.

Lle'r oedd ymatebwyr o blaid penodi PAD heb gymwysterau cyfreithiol, roedd cefnogaeth eang iddynt gael mynediad at gyngor cyfreithiol annibynnol. Hyd yn oed lle nad oedd ymatebwyr o blaid penodi PAD heb gymwysterau cyfreithiol, roeddent yn cytuno, pe byddai hyn yn cael ei ganiatáu, y dylent gael mynediad at gyngor cyfreithiol annibynnol. Hefyd, awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol iddynt feddu ar gefndir/dealltwriaeth/profiad ym maes llywodraeth leol a'i harferion a'i gweithdrefnau, ac yn ddelfrydol bod yn gyfarwydd â gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud ag ymchwiliadau a chosbau dilynol. Lle'r oedd PAD heb gymwysterau cyfreithiol yn cael ei benodi, byddai angen ystyried pwy fyddai'n cyfarwyddo'r cynghorwyr cyfreithiol annibynnol.

**Cwestiwn 5: Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno diwygio'r rheoliadau i alluogi'r Pwyllgor Ymchwilio i benderfynu a ddylid penodi PAD sydd â chymhwyster cyfreithiol neu heb gymhwyster cyfreithiol yn y cam ymchwilio rhagarweiniol. A ydych chi'n cytuno?**

Cafwyd 24 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, a chytunodd 12 y dylai'r pwyllgor ymchwilio allu penderfynu a ddylid defnyddio PAD â chymhwyster cyfreithiol neu heb gymhwyster gyfreithiol yn eu cam ymchwilio rhagarweiniol. Roedd 10 yn anghytuno â hyn a chynigiodd dau ymatebion 'eraill' a oedd yn ehangach na'r cwestiwn neu nid oeddent yn ymateb yn benodol i'r cwestiwn a ofynnwyd ond yn darparu sylwadau defnyddiol.

<u>Negeseuon allweddol o'r ymatebion</u>

Cafwyd safbwyntiau croes ar y cynnig hwn yn yr un niferoedd bron â'i gilydd. Dywedodd rhai fod angen safbwynt polisi ar hyn er mwyn sicrhau dull cyson ac osgoi penderfyniadau 'ad hoc'.

Mynegwyd pryderon na fyddai gan y pwyllgor ymchwilio efallai y sgiliau perthnasol i benderfynu a ddylid penodi PAD â chymhwyster cyfreithiol neu heb gymhwyster cyfreithiol ym mhob achos. Awgrymwyd y dylai pwyllgorau ymchwilio gynnwys aelodau etholedig, felly eu bod yn annhebygol ym mhob achos o feddu ar sgiliau ymchwilio datblygedig iawn neu wybodaeth fanwl am reolau tystiolaeth. Yn ogystal, codwyd yr angen i gynnal uniondeb yr ymchwiliad gan aelodau etholedig a'r angen am dryloywder. Awgrymwyd, ar y sail honno, y dylid cwblhau'r broses ymchwilio cyn gynted â phosibl a, lle bo'n briodol, ei throsglwyddo i'r PAD cyn gynted ag y bo modd i ymgymryd â'u gwaith a chyflwyno adroddiad ac argymhellion grymus ar ddiwedd yr ymchwiliad.

Wrth ganiatáu i bwyllgor ymchwilio benderfynu ar benodiad PAD, dywedodd rhai y gallai'r penodiad hwnnw fod yn agored i ddylanwad gwleidyddol a dywedodd y dylid penodi'r PAD naill ai drwy gytundeb rhwng y pleidiau neu gan gorff annibynnol. Awgrymodd rhai y dylai Llywodraeth Cymru gadw rhestrau o PAD ac yna gellid

dyrannu’r rhain ar sail ‘safle tacsi’. Fodd bynnag, roedd rhai o’r farn mai cymhlethdod achos yn unig ddylai bennu’r dewis o PAD.

Ymhlith y pwyntiau allweddol a godwyd gan randdeiliaid roedd:

- Amseriad y penderfyniad ynghylch a ddylid penodi PAD â chymhwyster cyfreithiol neu heb gymhwyster cyfreithiol. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni ellid gwneud hyn nes bod y pwyllgor wedi cwblhau ei ran yn y broses
- Mae gwerth mewn caniatáu i’r pwyllgor ymchwilio benderfynu ar y PAD ond dylent geisio cyngor Adnoddau Dynol a chyngor cyfreithiol cyn gwneud eu penderfyniad.
- Dylai’r broses o ddewis y PAD fod yn broses ar hap oni bai fod yr achos yn gymhleth a bod cyfiawnhad dros PAD cost uchel sydd wedi’i hyfforddi’n gyfreithiol.
- Gellid ystyried defnyddio pwyllgor cwynion awdurdod cyfagos i ymgymryd â’r rôl hon yn y camau cynnar.

**Cwestiwn 6: Mae Llywodraeth Cymru am ddiwygio rheoliadau fel bod y PAD, pa un a oes ganddo gymhwyster cyfreithiol ai peidio, yn cael ei benodi “ar sail safle tacsis” i sicrhau tegwch a bod yn agored yn y broses.**

**A ydych chi'n cytuno?**

Cafwyd 23 o ymatebion i’r cwestiwn hwn, ac roedd 16 ohonynt yn cytuno â phroses benodi ar sail ‘safle tacsis’ ar gyfer PAD, roedd tri yn anghytuno, a phedwar yn cynnig ymatebion ‘eraill’, a oedd yn ehangach na’r cwestiwn neu nid oeddent yn ymateb yn benodol i’r cwestiwn a ofynnwyd ond yn darparu sylwadau defnyddiol.

Negeseuon allweddol o’r ymatebion

Roedd mwyafrif helaeth o blaid penodi’r PAD ar sail ‘safle tacsis’ er bod nifer yn gosod amod ar eu hymatebion, a oedd yn cynnwys:

- Gallai’r dull hwn helpu i gynnal lefel o annibyniaeth na fyddai proses ddethol gan bwyllgor o bosibl yn ei wneud.
- Byddai’r broses yn dileu unrhyw honiad posibl o ymyrraeth wleidyddol.
- Dim ond am resymau cadarn a chlir megis rhagfarn neu ddiffyg profiad mewn maes cymhleth y dylid caniatáu gwrthwynebiadau i PAD sy’n cael ei ddewis a’i ddyrannu ar sail ‘safle tacsis’.
- Teimlwyd bod angen sefydlu mwy nag un rhestr o PAD i dynnu ohoni, neu is-adrannau mewn un rhestr ar gyfer y PAD heb gymhwyster cyfreithiol, a oedd hefyd yn manylu ar eu setiau sgiliau penodol. Unwaith y bydd y rhestrau hyn wedi’u sefydlu oni bai fod y camymddwyn honedig ar raddfa genedlaethol, yna dylid defnyddio proses ddethol ‘safle tacsis’ i sicrhau bod pethau’n agored.
- Dylid dewis PAD â chymhwyster cyfreithiol a heb fod â chymhwyster cyfreithiol o restr a ddelir gan Lywodraeth Cymru a dylai awdurdodau lleol ddewis yr un nesaf sydd ar gael ar y rhestr, oni bai fod gwrthdaro rhwng buddiannau, yna dylai fod yr un nesaf wedyn ar yr egwyddor ‘safle tacsis’.

Dywedodd pobl a oedd yn anghytuno â'r dull 'safle tacsis' fod y cynnig yn canolbwyntio ar a oedd y PAD yn meddu ar gymwysterau cyfreithiol ai peidio, ei fod ar gael ar unrhyw adeg benodol, ac ar gyfer amserlen gyflawn y broses pe bai'n cael ei alw ymlaen drwy'r system 'safle tacsis'. Gallai hyn arwain at benodi PAD heb gymwysterau cyfreithiol yn ddiofyn. Pwysleisiwyd y dylai penodiad y PAD ystyried arbenigedd y person a benodir, nid yn unig yr hyfforddiant cyfreithiol ond hefyd cymhwysedd yn y maes yr ymchwilir iddo. Dylid penodi'r person mwyaf addas oherwydd ei nodweddion perthnasol mewn perthynas â manylion yr ymchwiliad.

**Cwestiwn 7: Rôl y Pwyllgor Ymchwilio (PY) yw sefydlu a oes achos i'w ateb ac, os oes achos, a oes angen ymchwilio ymhellach iddo.**

**Nid rôl y PY yw ymchwilio i'r achos yn fwy manwl. A ydych chi'n cytuno?**

Cafwyd 25 ymateb i'r cwestiwn hwn, a chytunodd 15 nad rôl y PY oedd ymchwilio i'r achos yn fwy manwl unwaith y penderfynwyd bod angen ymchwilio ymhellach i'r achos. Roedd pedwar yn anghytuno â hyn a chynigiodd chwech ymatebion 'eraill', a oedd yn ehangach na'r cwestiwn neu nid oeddent yn ymateb yn benodol i'r cwestiwn a ofynnwyd ond yn darparu sylwadau defnyddiol.

<u>Negeseuon allweddol o'r ymatebion</u>

Roedd yr ymatebwyr a gytunodd yn ystyried ei bod yn bwysig i'r PY sefydlu a oedd angen ymchwilio ymhellach i'r achos, ond ni ddylid gweld y PY fel cyhuddwr, barnwr a rheithgor. Efallai nad yw'r PY yn meddu ar y sgiliau, yr arbenigedd na digon o ddealltwriaeth ofynnol o'r gyfraith. Roedd angen cael rhywfaint o bresenoldeb annibynnol ar y pwyllgor ymchwilio hefyd i wneud yn siŵr bod dyfarniad teg yn cael ei wneud.

Dylai'r PY weithredu fel hidlydd ar gyfer materion nad oes angen ymchwilio ymhellach iddynt. Fodd bynnag, dylent gael cyngor cyfreithiol annibynnol bryd hynny, nid cyngor o'r tu mewn i'r cyngor gan y gallai fod yn destun pwysau gwleidyddol, boed hynny'n agored neu ymhlyg. Ym marn un ymatebydd, mae llawer o'r cyhuddiadau disgyblu sy'n cael eu dwyn dan y darpariaethau hyn yn deillio o swyddogion yn cael eu beio gan aelodau.

Mae angen osgoi oedi a chydnabuwyd y gellid cael gwared ar rai honiadau yn gyflym drwy gael y cam rhagarweiniol hwn. Byddai rhagor o arweiniad ynghylch natur y rôl a chylch gorchwyl proses y PY o wneud penderfyniadau yn cael ei groesawu.

Mae angen i'r PY gael canllawiau llym ar eu rôl fel nad ydynt yn crwydro y tu hwnt i'w cylch gorchwyl. Bydd hyn yn osgoi dyblygu ac yn cynnal rôl y PAD fel endid ar wahân.

Barn arall oedd na ddylid cyfyngu ar ymchwiliad y pwyllgor. Hefyd, pe bai'r PY eisoes wedi archwilio'r achos i wneud penderfyniad o'r fath i fwrw ymlaen, efallai y byddai ganddynt yr arbenigedd yn awr i fwrw ymlaen â'r achos a byddai hyn hefyd yn cyflymu'r broses i osgoi talu i staff sydd wedi'u hatal dros dro yn y tymor hwy.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ddiffyg ymddiriedaeth yn eu hawdurdod lleol gan gwestiynu a allent gynnig yr annibyniaeth angenrheidiol drwy ymchwiliad mewnol, neu hyd yn oed y PY ei hun.

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r gwaith a wneir gan y pwyllgor ymchwilio gael ei rannu gyda'r PAD i osgoi dyblygu ymdrech? Esboniwch eich ateb, os gwelwch yn dda.**

Cafwyd 25 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd 21 ohonynt yn cytuno y dylid rhannu gwybodaeth rhwng y PY a'r PAD, roedd un yn anghytuno, ac roedd tri yn cynnig ymatebion 'eraill' a oedd yn ehangach na'r cwestiwn neu nid oeddent yn ymateb yn benodol i'r cwestiwn a ofynnwyd ond yn darparu sylwadau defnyddiol.

<u>Negeseuon allweddol o'r ymatebion:</u>

Yn gyffredinol, ystyriwyd y dylid rhannu gwaith y PY gyda'r PAD ond dim ond pan oedd y PAD wedi'i alluogi yn yr un modd ac yn meddu ar gymwysterau digonol i gymeradwyo gweithredu pellach. Credai eraill fod yn rhaid rhannu manylion yr ymchwiliad cychwynnol er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau bod yr holl honiadau neu dystiolaeth yn cael eu hystyried yn llawn gan y PAD. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod hyn yn rhan hanfodol o'r broses datgelu ac ymchwilio, a dylai adroddiad ar ganlyniad cam y PY fod yn rhan o'r brîff ar gyfer y PAD penodedig. Roedd angen tryloywder llwyr a sicrhau nad oedd y personél ar y PY hefyd yn rhan o broses y PAD.

Dywedodd yr ymatebydd nad oedd yn cytuno â'r cwestiwn hwn nad oedd yn briodol rhannu gwybodaeth, gan fod angen i'r PAD fod yn annibynnol.

**Cwestiwn 9: Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno ailadrodd bod Rheoliadau 2006 yn rhoi'r pŵer yn benodol i'r PAD gymryd camau hynny sy'n briodol yn eu barn nhw i sicrhau bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo'n effeithlon os bydd methiant i gydymffurfio ag amserlen. A ydych chi'n cytuno?**

Cafwyd 25 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd 21 ohonynt yn cytuno y dylai'r PAD gael y pŵer i sicrhau bod yr ymchwiliad yn symud yn ei flaen yn effeithlon, roedd un yn anghytuno, ac roedd tri yn cynnig ymatebion 'eraill', a oedd yn ehangach na'r cwestiwn neu nid oeddent yn ymateb yn benodol i'r cwestiwn a ofynnwyd ond yn darparu sylwadau defnyddiol.

<u>Negeseuon allweddol o'r ymatebion</u>

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cytuno ond roedd rhai sylwadau'n amodol ar gafeatau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Mae'n bwysig sicrhau bod gan y PAD bŵer i osod amserlen ar gyfer unrhyw ymchwiliad i sicrhau tegwch
- Byddai'n anodd gosod amserlenni sefydlog gan fod union natur y materion sy'n arwain at ddisgyblu uwch swyddogion fel arfer yn ymwneud â materion

cymhleth a manwl. Fodd bynnag, dylid cytuno ar amserlenni bras ar y dechrau er mwyn gallu rheoli ymchwiliadau'n fwy effeithiol

- Dylai materion sydd y tu hwnt i reolaeth y PAD (e.e. Covid) ganiatáu estyniadau
- Dylai'r PAD fod â rheolaeth lwyr.
- Lle bo'n bosibl, dylai'r PAD fod â chymwysterau cyfreithiol. Mae gan gyfreithwyr a barnwyr gymwysterau da i wybod beth fyddai'n gyfiawnhad derbyniol / annerbyniol dros estyniad amser.

Roedd yr un ymateb, nad oedd yn cefnogi'r ddarpariaeth hon, yn datgan na allent gytuno i benderfyniadau gael eu gwneud yn absenoldeb yr unigolyn sy'n destun yr ymchwiliad. Gallai fod nifer o resymau dilys pam nad yw unigolyn ar gael, a gallai amodau o ran terfyn amser fod yn wahaniaethol wrth eu gweithredu, er enghraifft, pan fydd iechyd meddwl unigolyn yn cael ei ystyried. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau cyfranogiad ar bob cam.

Roedd ymatebydd arall o'r farn mai cwblhau'r dasg o ymchwilio ddylai fod y nod, heb boeni am gyfyngiadau'r amserlen.

**Cwestiwn 10: Ni ddylid oedi'r ymchwiliad am gyfnod amhenodol. Os yw'r broses wedi'i gohirio am gyfnod oherwydd nad yw'r person sy'n destun ymchwiliad wedi ymateb neu os yw'n ymddangos ei fod yn ceisio oedi'r broses, awgrymir y dylai'r PAD allu parhau â'r gwrandawiad yn absenoldeb yr unigolyn sy'n destun ymchwiliad.**

**A ydych chi'n cytuno?**

Cafwyd 24 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd 21 ohonynt yn cytuno na ddylai'r PAD oedi'r ymchwiliad yn achos methiant unigolyn sy'n destun yr ymchwiliad i ymateb neu ymgais ar ei ran i oedi pethau, nid oedd yr un ymatebydd yn anghytuno, ac roedd tri yn cynnig ymatebion 'eraill' a oedd yn ehangach na'r cwestiwn neu nid oeddent yn ymateb yn benodol i'r cwestiwn a ofynnwyd ond yn darparu sylwadau defnyddiol.

<u>Negeseuon allweddol o'r ymatebion</u>

Dylid cael proses ar gyfer rhoi cyfle addas i'r person fynychu a chyfathrebu â'r person i roi gwybodaeth ynghylch beth fydd yn digwydd os nad yw'n mynychu nac yn ymateb. Mae'n hanfodol bod y broses yn deg nid yn unig i'r person dan ymchwiliad ond hefyd i unrhyw aelodau eraill o staff a allai fod yn rhan o'r ymchwiliad. Gallai oedi diangen arwain at faterion ychwanegol sy'n ymwneud â chyflogaeth.

Dylid cynnal ymchwiliad llawn i ganfod pam fod y broses yn cael ei gohirio. Dylai'r ymchwiliad barhau yn absenoldeb yr unigolyn ond dim ond ar ôl cyfnod o rybudd, ac na chyflwynwyd tystiolaeth feddygol liniarol ynghylch iechyd a galluedd meddyliol. Awgrymwyd y dylai cyfnod rhybudd o bedair wythnos fel isafswm fod yn briodol ar gyfer ymatebion ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol fel Covid, lle dylid ystyried darparu dewisiadau rhithiol. Os yw'r unigolyn dan ymchwiliad yn dal i wrthod cymryd rhan, yna dylai copi o ganfyddiadau drafft y PAD fod ar gael ar gyfer gwirio ffeithiau.

Cynhelir y broses hon yn y llysoedd troseddol ac mae'n gwbl gyfreithiol. Os bydd yr unigolyn yn methu â mynychu neu gyflwyno gwybodaeth dderbyniol i'r PAD mewn pryd, ni ddylai hyn ddirymu'r broses.

Teimlai un ymatebydd y gallai gefnogi'r cynnig ar yr amod bod gan y parti dan ymchwiliad hawl i apelio i'r Gweinidog.

**Cwestiwn 11: Os bydd ymchwiliadau allanol yn gwneud cais i atal y broses PAD, yna dylid ystyried hynny. Dylid ystyried sylwadau gan yr unigolyn sy'n destun ymchwiliad hefyd. Fodd bynnag, dylai'r PAD gael cyfle i ofyn i'r penderfyniad ar ohirio'r broses gael ei adolygu yn unol ag amserlen y dylid ei hystyried ar gyfer pob achos unigol. Dylid cofnodi'r rhesymeg dros beidio â pharhau, pa bynnag benderfyniad a wneir. A ydych chi'n cytuno?**

Cafwyd 25 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd 19 ohonynt yn cytuno, roedd pedwar yn anghytuno, ac roedd dau yn cynnig ymatebion 'eraill', a oedd yn ehangach na'r cwestiwn neu nid oeddent yn ymateb yn benodol i'r cwestiwn a ofynnwyd ond yn darparu sylwadau defnyddiol.

Negeseuon allweddol o'r ymatebion

Yn gyffredinol, y farn oedd bod hyn yn dibynnu ar natur y materion yr ymchwilir iddynt yn allanol. Er enghraifft, byddai cais gan yr heddlu yn cario cryn bwysau, ac felly hefyd y byddai gwrandawiadau troseddol sydd yn yr arfaeth. Os mai dim ond gan ffynonellau allanol y gallai ymchwiliad barhau yn iawn, yna dylid rhoi terfyn ar yr ymchwiliad PAD ar waith. Serch hynny, cynghorwyd y dylid bod yn ofalus o ran a fyddai parhau â phroses y PAD yn peryglu'r ymchwiliad allanol. Dan amgylchiadau o'r fath, dylid caniatáu i'r PAD ofyn am adolygiad o'r amserlen yn seiliedig ar rinweddau'r achos a'r amserlen bosibl sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad allanol. Fodd bynnag, dylid adolygu'r amserlen hon yn gyson.

Os oes ymchwiliad troseddol ar y gweill yna dylid rhoi ystyriaeth briodol i gais gan yr uwch swyddog i ohirio'r achos fel nad yw'n ofynnol iddo/iddi ateb cwestiynau na darparu datganiadau a allai beryglu eu hamddiffyniad mewn unrhyw achos troseddol.

Roedd barn hefyd, os yw'r pwyllgor ymchwilio wedi cyflwyno'r achos i'r PAD ynghyd â'r holl ddogfennau ategol, yna bod yn rhaid i'r mater fynd yn ei flaen. Os gwnaed sylwadau gan ymchwiliad allanol presennol, neu yn wir gan yr unigolyn sy'n destun ymchwiliad, yna rhaid i'r PAD ystyried hyn, ond nid atal yr ymchwiliad.

Roedd consensws bod yn rhaid cofnodi unrhyw beth sy'n torri ar draws proses gyfreithiol er budd cyfiawnder a thryloywder a'i gofnodi'n llawn.

**Cwestiwn 12 – Mae newidiadau yn y ddeddfwriaeth yn cael eu hystyried i sicrhau nad yw rheolau sefydlog awdurdodau lleol yn mynd yn groes i reolau a rheoliadau eraill y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu hystyried. Yn y lle cyntaf, bydd y cyfansoddiad enghreifftiol yn cael ei wirio i sicrhau nad oes gwrthdaro. Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i ganllawiau pellach. A ydych chi'n cytuno â'r dull hwn o weithredu?**

Cafwyd 21 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd 16 ohonynt yn cytuno â'r dull uchod, roedd un yn anghytuno, pump yn rhoi dim ymateb ac roedd pedwar yn cynnig ymatebion 'eraill', a oedd yn ehangach na'r cwestiwn neu nid oeddent yn ymateb yn benodol i'r cwestiwn a ofynnwyd ond yn darparu sylwadau defnyddiol.

Negeseuon allweddol o'r ymatebion

Cytunodd yr ymatebwyr y byddai'n ddefnyddiol pe bai rhyngweithio priodol a boddhaol rhwng y Rheolau Sefydlog, y Rheoliadau Ariannol a'r Telerau Contractiol ar gyfer y Cyfansoddiad Enghreifftiol er mwyn lleihau neu osgoi gwrthdaro a meysydd y gellid dadlau yn eu cylch o ran amodau cyflogaeth. Roedd angen sicrhau nad oedd rheolau sefydlog yn gwrthdaro â thelerau ac amodau contractau.

Dywedodd un ymatebydd ei fod yn deall bod Llywodraeth Cymru, CLlLC a Grŵp Swyddogion Monitro Cymru LLG (Cyfreithwyr mewn Llywodraeth) eisoes wedi dod i'r casgliad bod angen adolygu'r cyfansoddiad enghreifftiol. Yr oedd y model presennol, yn wreiddiol, yn ddiwygiad o'r ymgynghoriad cyntaf o'r fath a gynigiwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Hyrwyddwyd y diwygiad hwn gan y Swyddog Monitro ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r model diwygiedig hwn wedi bod yn arf llwyddiannus iawn a ddefnyddiwyd yn y rhan fwyaf o brif gynghorau yng Nghymru a dylid defnyddio'r cydweithio cryf hwn eto.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod yn rhaid diogelu'r uwch swyddogion: rhaid sefydlu strwythur sefydlog o reolau ar gyfer y swyddogion hyn. Rheolau cyfreithiol y mae'n rhaid iddynt lynu wrthynt, ni waeth i ba awdurdod y maent yn gweithio.

Barn arall oedd mai'r rheolau sefydlog ddylai fod drechaf.

**Cwestiwn 13**: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai ymgynghori ar yr adolygiad o'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chamymddwyn honedig gan uwch swyddogion mewn awdurdodau lleol (Adolygiad Oldham) yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau fyddai, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau positif, neu liniaru effeithiau negyddol?

Cafwyd 19 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhain i gyd yn ymatebion testun rhydd.

Negeseuon allweddol o'r ymatebion

Y farn gyffredinol oedd na fyddai unrhyw ddewis iaith yn arwain at unrhyw gynnydd mewn effaith lesol, na lliniaru effaith negyddol. Ni ddylai fod gwahaniaeth mewn achos

sy'n cael ei glywed yn Gymraeg neu yn Saesneg. Gallai costau cyfieithu fod yn berthnasol, a gallai fod problem pe byddai rhywun am drafod mewn iaith o'i ddewis lle nad oedd cyfieithu ar gael. Y ffactor pwysicaf yma oedd ymdrin â chamymddwyn, a safon a chanlyniad yr ymchwiliad sy'n hanfodol.

Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod y byddai'r cynigion a nodir yn y papur ymgynghori eisoes wedi bod yn destun asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. Byddai angen rhoi ystyriaeth bellach ar lefel pob awdurdod lleol yn unol â phrotocolau a safonau lleol. Fodd bynnag, mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd i weithio'n ddwyieithog felly nid oedd ymatebwyr yn gweld y byddai'r ymgynghoriad yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Yn ogystal, roedd yr achwynydd a'r sawl oedd yn destun yr ymchwiliad eisoes wedi'u gwarchod gan statud yng Nghymru er mwyn gallu cynnal eu hachos a chael eu clywed yn Gymraeg. Lle mae swyddogion ac aelodau awdurdodau lleol yn nodi mai'r Gymraeg yw eu dewis iaith, byddai cynnal adolygiadau yn Saesneg yn amhriodol.

Fodd bynnag, byddai'n bwysig sicrhau bod gan unrhyw PAD y sgiliau cyfreithiol, y sgiliau nad ydynt yn rhai cyfreithiol a'r sgiliau ieithyddol priodol sy'n angenrheidiol i gyflawni rôl PAD. Lle cynhelir yr ymchwiliad yn Gymraeg dylid cael cyfieithiad i'r Saesneg ar gyfer y rhai nad yw Cymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Efallai y bydd problem os nad fydd PAD sy'n siarad Cymraeg ar gael ar sail 'safle tacsis'; fodd bynnag, barn arall oedd mai'r PAD ddylai fod y person gorau ar gyfer y rôl, nid dim ond rhywun sy'n gallu siarad iaith benodol.

Cyfeiriodd ymateb pellach at yr arfer presennol mewn Llysoedd Ynadon, y gellid ei ddefnyddio yn y sefyllfaoedd uchod a theimlai nad oedd angen ailddyfeisio'r olwyn.

**Cwestiwn 14**: Eglurwch hefyd, os gwelwch yn dda, sut rydych yn credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cafwyd 19 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhain i gyd yn ymatebion testun rhydd ond cyfeiriodd pump o'r 19 at eu sylwadau blaenorol heb ychwanegu dim byd arall.

<u>Negeseuon allweddol o'r ymatebion</u>

Yn bennaf, roedd yr ymatebion mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn ymwneud â sicrhau bod statws cyfartal i'r ddwy iaith mewn unrhyw achos a bod y defnydd o wasanaethau cyfieithu o'r iaith o ddewis (Cymraeg/Saesneg) i'r iaith arall (Saesneg/Cymraeg) neu fel arall ar gael. Teimlai eraill y dylai'r rhestrau o PAD â chymwysterau cyfreithiol/heb gymwysterau cyfreithiol fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac y dylid annog PAD i ddysgu Cymraeg. Awgrym arall yw y gallai fod yn werth ystyried symud tuag at y Gymraeg yn ddiofyn, gyda'r opsiwn o ddewis Saesneg.

Fodd bynnag, cafwyd sylw y dylid ymdrin ag amddiffyn y Gymraeg o fewn y Ddeddf polisi iaith Gymraeg gyfredol ac na ddylai ffurfio rhan o gamymddwyn uwch swyddogion. Yr oedd ymatebwr arall nad oedd ganddo fawr o amynedd ag agweddau Cymraeg y broses hon.

**Cwestiwn 15**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael a nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Cafwyd 15 o ymatebion testun rhydd i'r cwestiwn hwn.

Mae crynodeb o'r ymatebion hyn, lle na chyfeiriwyd at y materion eisoes, wedi'i nodi isod:

- Gallai Llywodraeth Cymru (LlC) ddarparu cyngor cyfreithiol ar gyfer PAD heb gymwysterau cyfreithiol.

- Nid yw'r drefn gwyno, gan gynnwys Cam 2 a chyfeirio at yr Ombwdsmon, yn addas i'r diben ar y lefel leol na'r lefel genedlaethol. Gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i sicrhau bod y weithdrefn gwyno yn rhydd rhag ymyrraeth gan uwch reolwyr ac uwch swyddogion mewn awdurdodau llywodraeth leol.

- Dylai holl aelodau gweithlu'r awdurdod lleol, ni waeth beth yw eu safle yn y strwythur, gael eu trin yn deg. Gall materion sydd wedi'u cyfeirio at PAD i'w hystyried yn annibynnol gymryd llawer o amser a thrwy gydol cyfnod yr ymchwiliad, mae'r unigolion dan sylw yn parhau i fod ar gyflog llawn, sydd, yn achos uwch swyddogion, yn gallu bod yn swm sylweddol. Wrth gymharu hyn â gweddill y gweithlu, mae'n amlwg bod anghydraddoldeb o ran trin staff yn dibynnu ar statws.

- Dylid cael eglurder ynghylch a all swyddog dderbyn cosb ddisgyblu heb orfod mynd drwy broses PAD. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai barn Cyfreithwyr mewn Llywodraeth (LLG) wedi'i cheisio ar y dechrau, a chynrychiolydd wedi'i gynnwys ar y panel gwreiddiol, gan fod Swyddogion Monitro yn ymwneud yn sylweddol â materion o'r fath.

- Dylid cyfeirio at wneud darpariaeth ar gyfer y rhai sydd ag anghenion arbennig.

- Mae'n bryd i'r prosesau a'r gwasanaeth sy'n ymdrin â chamymddwyn gael dannedd a bod y gosb i'r rhai a geir yn euog yn cael ei thrin mewn ffordd lawer mwy llym.

- Rhaid i'r achwynydd/achwynwyr drwy reoliadau gael caniatâd i gymryd rhan lawn yn yr ymchwiliad, ni waeth a yw'r sawl sy'n destun y gŵyn yn cymryd rhan yn y broses ai peidio. Rhaid diffinio 'personau priodol' fel unrhyw berson neu bersonau nad ydynt yn destun y gŵyn nac yn achwynydd/achwynwyr. Mae Rheoliadau 2006

yn dawel ynghylch mater costau a chan bwy y gellir eu ceisio. Mae angen cywiro hyn.

- Dro ar ôl tro, tynnwyd sylw at ddiffygion awdurdodau lleol ac mae hyn yn niweidio canfyddiad y cyhoedd o degwch a thryloywder. Mae 'mesurau arbennig' yn golygu na ellir ymddiried yn yr awdurdod lleol i roi trefn arno'i hun, dylai Llywodraeth Cymru oruchwylio awdurdodau lleol i atal y sefyllfa rhag mynd cyn belled â hynny.

- Lluniwyd y rheoliadau hyn i ymdrin â chamymddwyn honedig swyddogion uchel iawn mewn llywodraeth leol a ddiffinnir fel Pennaeth Gwasanaethau Cyflogedig (Y Prif Weithredwr), y Prif Swyddog Cyllid a'r Swyddog Monitro. Fodd bynnag, roedd gan y Panel Cynghori gynrychiolwyr o ddau gorff a oedd yn cynrychioli Prif Weithredwyr (sef ALACE a SOLACE) ond nid oedd unrhyw un o CIPFA neu LLG, y cyrff proffesiynol sy'n cynrychioli Swyddogion Cyllid a Swyddogion Monitro yn benodol. Credaf ei bod yn esgeulus i beidio â chynnwys cynrychiolwyr o holl dargedau posibl y ddeddfwriaeth hon. Gwn fod yn rhaid iddo fod yn rhif y gellir ymdopi ag ef, ond prin y byddai dau arall ar y Panel wedi bod yn llethol.

- Bydd y gwasanaeth 'safle tacsis' yn gweithio'n well os bydd gogledd Cymru'n defnyddio personél y de ac i'r gwrthwyneb. Byddai hyn yn golygu y byddai llai o gyfle i ddylanwadu gan bobl a allai fod â gwrthdaro rhwng buddiannau. Hefyd, yr angen i fod yn niwtral, dim un blaid i gael mwyafrif, a dweud y gwir byddwn yn croesawu i bob plaid wleidyddol gael un cynrychiolydd, nid dim ond cydbwysedd gwleidyddol yn unig.

- Mae llawer o bobl yn fy awdurdod lleol, gan gynnwys cynghorwyr eu hunain, wedi cael eu cam-drin (eu bwlio, aflonyddu arnynt, ymosod arnynt) gan uwch reolwyr. Caniatawyd i'r bobl hyn barhau i weithredu a gwasanaethu fel swyddogion heb unrhyw graffu nac ymchwiliad. Mae eu gweithredoedd wedi cael effaith sydd wedi newid bywydau nifer o bobl, hyd yn oed cynghorwyr lleol eu hunain. A oes unrhyw system gan Lywodraeth Cymru wedi holi'r cynghorwyr?

- Os ydw i am gwyno am swyddogion ar lefel uwch, rhaid imi droi at yr Ombwdsmon. Mae hon yn broses wirion gan fod y gŵyn yn cael ei chyfeirio ar unwaith at y cyngor/swyddog dan sylw. Mae'n bryd i bobl gyffredin gael eu hamddiffyn rhag gweithredoedd yr uwch swyddogion.

- Nid yw pobl y wlad gyfan wedi cael gwybod am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn: nid yw'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei hysbysebu'n ddigonol.

**Y camau nesaf**

Mae'r Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi ymrwymo i wneud y newidiadau a argymhellwyd gan 'Adolygiad Oldham', gyda chefnogaeth gweithgor Adolygiad Oldham, a'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn. Bydd deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno yn ystod y chweched Senedd.

**Rhestr o'r Ymatebwyr**

- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- David Daycock
- Joan a John Filce
- Karen Medhurst
- Mark Thomson
- Neil McKenzie
- Trevor Coxon
- Unsain Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

Roedd 17 o ymatebwyr yn dymuno aros yn ddienw.